

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

RHWNG

**AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL CYMRU**

A

**OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CYMRU**

Rhif y Fersiwn: 0.3
Dyddiad y cytunwyd arno: 15.12.14

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys	1
ii. Hanes Diwygio a Chymeradwyo	3
1. Cyflwyniad	4
2. Swyddogaethau a chyfrifoldebau.....	4
2.1 Swyddogaeth AGGCC.....	4
2.2 Swyddogaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	5
3. Cydweithredu a grymoedd statudol	6
4. Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	7
5. Gwarchod data a rhyddid gwybodaeth	7
6. Y berthynas yn ymarferol.....	7
7. Atgyfeirio mewn achosion unigol	9
8. Cysoni anghydfod.....	9
9. Adolygiad.....	9
10. Llofnodion	9

ii. Hanes Diwygio a Chymeradwyo

Fersiwn	Dyddiad y cytunwyd arno
0.1	i'w gadarnhau
0.2	Diwygiadau AGGCC ac OGCC
0.3	Dyddiad arwyddo, cytunwyd ac ychwanegwyd

Dyddiad	Disgrifiad diwygio'r ddogfen	Diweddarwyd y ddogfen gan
11 Tachwedd 2013	Drafft cychwynnol	Nigel Moss
1 Hydref 2014	Diwygiadau gan AGGCC ac yna gan OGCC	Natalie Cooper
15 Rhagfyr 2014	Arwyddo gan Prif Arolygydd ac Ombwdsmon	Marilyn Morgan

1. Cyflwyniad

- 1.1 Nod y Memorandwm hwn yw amlinellu'r cytundeb rhwng Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â chydweithredu a chyfnewid gwybodaeth. Nid yw'r Memorandwm hwn yn effeithio ar swyddogaethau statudol presennol y cyrff unigol nac yn ymarfer y swyddogaethau hynny; nac yn diwygio unrhyw bolisïau a chytundebau eraill mewn perthynas â'u gweithgareddau. Nid yw'n awgrymu unrhyw drosglwyddo cyfrifoldeb o un i'r llall, nac yn golygu unrhyw rannu cyfrifoldebau statudol ac eithrio ble mae hyn yn cael ei ganiatáu drwy statud.
- 1.2 Mae gan OGCC rymoedd statudol yn gysylltiedig ag AGGCC yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn awdurdod rhestredig o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Bydd OGCC yn ymateb i unrhyw gŵyn ynghylch AGGCC yn unol â'r Ddeddf a'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun. O ganlyniad, nid yw cwynion ynghylch, neu'n cynnwys, gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan AGGCC yn cael eu heffeithio gan y Memorandwm hwn a bydd cwynion yn cael eu harchwilio yn yr un modd â chwynion i'r OGCC ynghylch cyrff eraill.
- 1.3 Cafodd grymoedd OGCC eu hystyried ym mis Tachwedd 2014 er mwyn darparu ar gyfer ystyried cwynion ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol sydd wedi'u trefnu neu'u hariannu'n breifat.
- 1.4 Nid oes bwriad y dylai'r Memorandwm hwn fod yn rhwymo mewn cyfraith. Fodd bynnag, mae AGGCC ac OGCC yn cytuno i ymlynu i'w egwyddorion a chymryd sylw priodol o weithgareddau'i gilydd a gweithio gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo gwelliant yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

2. Swyddogaethau a chyfrifoldebau

2.1 Swyddogaeth AGGCC

- 2.1.1 Swyddogaeth AGGCC yw cynnal archwiliadau a dyfarniadau ynghylch gwasanaethau gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a chymdeithasol a thrwy hynny, annog gwelliant gan y darparwyr gwasanaethau.
- 2.1.2 Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 yn rhoi grymoedd i adolygu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

2.1.3 Mae Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi grym i gofrestru ac arolygu sefydliadau ac asiantaethau yng Nghymru sy'n darparu gofal cymdeithasol. Yn ogystal, mae gan AGGCC y grym i ymgymryd â chymau gorfodi sifil a throseddol mewn perthynas â gwasanaethau gofal cofrestredig.

2.1.4 Mae AGGCC yn rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar drwy ddefnyddio'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r rheoliadau yn galluogi AGGCC i reoleiddio ymddygiad sefydliadau ac asiantaethau yng Nghymru.

2.1.5 Mae AGGCC yn archwilio ac yn rheoleiddio:

- Cartrefi Gofal i oedolion – yn cynnwys y rhai hynny sy'n darparu gofal nyrsio
- Asiantaethau gofal cartref
- Cynlluniau lleoli oedolion
- Asiantaethau nyrsys
- Cartrefi plant
- Gwarchodwyr plant
- Gwasanaethau gofal dydd ar gyfer y rhai dan 8
- Asiantaethau maethu
- Asiantaethau mabwysiadu
- Ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl a cholegau addysg bellach gyda llety ar gyfer myfyrwyr o dan 18 oed

2.1.6 Mae AGGCC yn archwilio, adolygu a gwerthuso

- Gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol

2.2 Swyddogaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2.2.1 Ystyried cwynion ynghylch cyrff cyhoeddus a gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal lliniarol sydd wedi cael eu trefnu neu'u hariannu'n breifat.

- 2.2.2 Ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r côd ymddygiad.
- 2.2.3 Er mwyn unioni'r sefyllfa a rhoi pobl yn ôl yn y sefyllfa y bydden nhw wedi bod ynddi pe na fydden nhw wedi dioddef anghyfiawnder, a gweithio er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl lle mae anghyfiawnder wedi digwydd.
- 2.2.4 Gweithio gyda chyrff fel bod gwersi yn cael eu dysgu o'r ymchwiliadau.
- 2.2.5 Sicrhau gwelliant parhaus yn safonau'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy helpu cyrff ei gael yn iawn y tro cyntaf - gweithio i leihau cwynion drwy helpu darparwyr gwasanaethau i wella eu penderfyniadau cychwynnol.

3. Cydweithredu a grymoedd statudol

- 3.1 Nod trosfwaol y ddau gorff yw cyfrannu tuag at ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus ardderchog yng Nghymru sy'n parchu ac yn hyrwyddo hawliau dynol dinasyddion ac sy'n sensitif i anghenion aelodau mwyaf difreintiedig a bregus cymdeithas.
- 3.2 Mae gan y ddau gorff ddiddordeb ym mherfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru o ran eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a gall y ddau gorff fod yn gysylltiedig ag ystyried y gofal sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwyr gwasanaethau annibynnol.
- 3.3 AGGCC yn benodol sy'n gyfrifol am adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac am sicrhau bod gwasanaethau rheoleiddiedig yn cydymffurfio â'r statudau, y rheoliadau a'r canllawiau perthnasol. Gall ddefnyddio ei rymoedd gorfodi, sifil a throseddol fel ei gilydd, er mwyn sicrhau hyn mewn gwasanaethau cofrestredig.
- 3.4 Lle mae'r Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod unigolyn sydd wedi cael cam ac wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i gŵyn y mae wedi'i hystyried, yna fel arfer, mae'n gwneud argymhellion i ymdrin ag unrhyw bryderon a nodwyd.
- 3.5 Mae OGCC a AGGCC yn cytuno i gydweithio er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gweithredu gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

4. Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

- 4.1 Mae'r angen i weithredu mewn modd sy'n gydnaws â Hawliau Confensiwn fel y disgrifir yn a.1 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, yn sylfaenol i waith AGGCC ac OGCC. Mae pob sefydliad yn ceisio hyrwyddo hawliau dynol y rhai hynny sydd o fewn ei gylch gwaith.
- 4.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd trin pobl yn annheg oherwydd nodweddion gwarchodedig sydd ganddyn nhw ac mae'n helpu i gyflawni cyfleoedd cyfartal.
- 4.3 Mae cyd-lofnodwyr y Memorandwm hwn yn credu bod y trefniadau a amlinellwyd yn y Memorandwm yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

5. Gwarchod data a rhyddid gwybodaeth

- 5.1 Bydd AGGCC ac OGCC, yn eu cydweithgareddau a'u cydweithredu â'i gilydd, yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.
- 5.2 Bydd AGGCC ac OGCC, yn eu cydweithgareddau a'u cydweithredu â'i gilydd, yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

6. Y berthynas yn ymarferol

- 6.1 Mae AGGCC ac OGCC yn ymrwymo eu hunain i ffordd egwyddorol o weithio, fel y nodir isod:
- 6.2 Bydd y berthynas waith rhwng AGGCC ac OGCC yn cael ei nodweddu gan gysylltiad rheolaidd parhaus a chyfnewid gwybodaeth yn agored mewn modd priodol rhyngddyn nhw o fewn paramedrau fframweithiau cyfreithiol y naill a'r llall.
- 6.3 Bydd cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal rhwng y Prif Arolygydd a'r Ombwdsmon yn ôl yr angen, ond nid yn llai aml na bob 12 mis. Gall y Prif Arolygydd neu'r Ombwdsmon ddirprwyo'r dasg hon i'w Ddirprwy neu i'w Gyfarwyddwr Ymchwiliadau.

- 6.4 Bydd cyfarfodydd ffurfiol i drafod materion o ddiddordeb cydfuddiannol yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolydd enwebedig o bob sefydliad bob chwe mis. Yn ogystal, bydd staff eraill yn cysylltu ar faterion o'r fath fel maen nhw'n codi a phan maen nhw'n codi.
- 6.5 Mewn ysbryd o gydweithrediad, mae AGGCC ac OGCC yn cytuno i:
- Rannu gwybodaeth ynghylch tueddiadau, data, polisïau a mentrau sy'n gysylltiedig â'r nod a rennir o sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu darparu â gwasanaethau o ansawdd uchel;
 - Rhannu copïau electronig o adroddiadau yn rhagweithiol yn dilyn adolygiadau ac archwiliadau neu ymchwiliadau a all fod yn berthnasol i'r ddau sefydliad. Bydd anhysbysrwydd yn cael ei warchod yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol;
 - Ymgynghori mewn perthynas â chanllawiau neu adroddiadau a gynhyrchwyd gan un cyd-lofnodwr sy'n cyfeirio at gyfrifoldebau neu swyddogaethau'r cyd-lofnodwr arall;
 - Cydweithredu wrth ledaenu gwybodaeth ynghylch ymarfer da lle mae'r ymarfer da hwnnw yn berthnasol i brif nodau'r cyd-lofnodwr arall;
 - Sicrhau bod ymholwyr ac achwynwyr posibl neu wirioneddol yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol a manwl gywir ynghylch swyddogaethau'r cyd-lofnodwr arall, lle gallai'r wybodaeth honno fod yn ddefnyddiol iddyn nhw;
 - Cydweithredu a rhannu gwybodaeth gyffredinol mewn perthynas â chwynion a phryderon o ran gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal lliniarol sydd wedi'u trefnu'n breifat.
- 6.6 Bydd y ddau sefydliad yn rhannu manylion eu polisïau a'u gweithdrefnau mewnol.
- 6.7 Bydd pob sefydliad yn dosbarthu datganiadau i'r wasg i'r llall (o dan waharddiad) er mwyn darganfod sut gall diddordeb gan y cyfryngau mewn perthynas â phwnc o bwys cydfuddiannol gael ei drin.
- 6.8 Bydd pob sefydliad yn rhannu unrhyw ddatganiad i'r cyfryngau sy'n cyfeirio at y llall er mwyn sicrhau bod y datganiad yn fanwl gywir.
- 6.9 Bydd pob sefydliad yn sicrhau bod aelodau o'r staff yn ymwybodol o gynnwys y Memorandwm hwn a'r egwyddorion ar gyfer cydweithio.
- 6.10 Cyfrifoldeb y Prif Arolygydd a'r Ombwdsmon fydd sicrhau bod pob sefydliad yn deall swyddogaeth y llall a'r fframwaith statudol o fewn yr hwn y mae gofyn iddo weithio.

7. Atgyfeirio mewn achosion unigol

Bydd AGGCC ac OGCC yn cyfeirio pryderon neu achosion o un cyd-lofnodwr i'r cyd-lofnodwr arall lle mae'n briodol i wneud hynny. Er enghraifft, gall OGCC gyfeirio mater at AGGCC lle mae'n derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu y gallai bod bygythiad i iechyd a diogelwch un neu fwy o unigolion, ac ystyrir ei fod er lles y cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth hon. Gall AGGCC gyfeirio at OGCC lle mae cwyn yn cael ei godi mewn perthynas â gwasanaeth a ddarparwyd gan gorff sy'n syrthio o fewn ei awdurdodaeth, a bod y gofynion a amlinellir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn cael eu cwrdd.

8. Cysoni anghydfod

Bydd y ddau gyd-lofnodwr yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau yn gyfeillgar ar lefel weithredol. Os na ellir datrys yr anghydfod ar y lefel honno, bydd uwch reolwyr o'r ddau sefydliad yn ceisio datrys unrhyw fater.

9. Adolygiad

Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei arolygu a'i ddiweddarau fel y mae angen, ond nid mwy nag un flwyddyn ar ôl ei arwyddo a phob dwy flynedd ar ôl hynny.

10. Llofnodion

Imelda Richardson	Nick Bennett
Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Arwyddwyd.....	Arwyddwyd.....
Dyddiad 15 Rhagfyr 2014	Dyddiad 15 Rhagfyr 2014